Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

**TAFLEN CRYNHOI PENDERFYNIAD**

**Diben:** Penderfyniad y Comisiynydd – Cyf. DL|387

**Amseru: Unigol**

**Teitl: Taith Undod 2025 yr Heddlu**

**Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes: Cyllid**

**Crynodeb Gweithredol:**

Digwyddiad beicio pedal elusennol yw Taith Undod yr Heddlu sy’n codi arian ar gyfer elusen Care of Police Survivors y DU (COPS).

Mae’r digwyddiad yn codi ymwybyddiaeth ac yn anrhydeddu swyddogion heddlu sydd wedi marw wrth gyflawni eu dyletswydd. Mae swyddogion heddlu o bob cwr o Gymru a Lloegr yn beicio ar draws i wlad i godi arian ac maen nhw wedi ymrwymo i helpu teuluoedd swyddogion heddlu sydd wedi colli eu bywydau wrth gyflawni eu dyletswydd. Hyd yn hyn, mae’r digwyddiad hwn wedi codi dros £1 miliwn, gan gefnogi gwaith yr elusen a theuluoedd cydweithwyr a gwympodd yn uniongyrchol.

Yn y blynyddoedd diwethaf, yn drasig, mae nifer o swyddogion a oedd yn gwasanaethu i Heddlu Dyfed-Powys wedi marw, ac mae’r elusen hon wedi rhoi cymorth amhrisiadwy i’w teuluoedd.

Bob blwyddyn, mae swyddogion o Heddlu Dyfed-Powys yn cymryd rhan yn y Daith ac yn cynrychioli’r Heddlu yn y digwyddiad codi arian.

**Argymhelliad:**
Argymhellir bod cyfraniad o £500.00 yn cael ei roi i’r digwyddiad o’r gyllideb Gwerthu Eiddo y Daethpwyd o Hyd Iddo.

**Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys**

Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf unrhyw ddiddordeb personol neu sy'n rhagfarnu yn y mater hwn a fy mod wedi gwneud y penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.

Rwy’n cymeradwyo’r cais uchod.

**Llofnod:** Dafydd Llywelyn **Dvddiad: 02/06/25**